# BWRDD GWELLA

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2012 (10:00am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Gareth Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies, Margaret Foster<br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, K. P. Hughes, T. Lloyd Hughes, H. Eifion Jones, B. Owen, G. O. Parry MBE, R. G. Parry OBE, Selwyn Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid), Pennaeth Gwasanaeth (Polisi), Rheolydd Adnoddau Dynol. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Datblygu Economaidd)<br>Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen<br>Arweinydd Prosiect (Cyllid TGCh)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Mr. Doug Elliott (Ymgynghorydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)<br>Mr. Gwilym Bury (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Comisiynydd Mick Giannasi, Y Cynghorwyr O. Glyn Jones, Tom Jones, Swyddog Adran 151 Dros Dro, Pennaeth Gwasanaeth (TGCh). |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr. Gwilym Bury (Swyddfa Archwilio Cymru).

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Nid oedd dim i'w ddatgan.

### 2. YMDDIHEURIADAU

Fel uchod.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2011 fel rhai cywir.

### 4. CERDYN SGORIO PERFFORMIAD CORFFORAETHOL

Adroddodd y Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen ar Gerdyn Sgorio Perfformiad Chwarter 3 2011/12 ar Flaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr ynghyd â'u statws CAG.

Dygwyd sylw at y blaenoriaethau gwella statudol yr oedd y Cyngor angen rhoi sylw iddynt bob blwyddyn a'r sefyllfa mewn perthynas â gwireddu'r Cytundebau Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion wedi nodi bod rhai o'r mesurau allweddol yn y cytundebau hynny yn rhy uchelgeisiol ac y byddant yn methu eleni.  Roedd gwaith yn cael ei wneud yn awr i fonitro'r

cytundebau hyn bob mis yn hytrach na phob chwarter.  Trwy wneud hynny, byddai'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach o ran ei berfformiad a dylai fod o gymorth hefyd gydag ail-drafod y targedau ar gyfer y drydedd flwyddyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H. E. Jones at Flaenoriaethau Busnes y Cyngor a bod angen i'r Cyngor ddod o hyd i oddeutu £5m o arbedion ar gyfer 2012/13 dros y tri mis nesaf.  Nid oedd yn argyhoeddedig bod gan y Cyngor gynllun gweithredu priodol i roi sylw i'r mater hwn.

Yn ei ymateb, dywedodd y Cadeirydd fod y Comisiynwyr wedi sefydlu system fonitro fisol fel bod modd iddynt hwy a'r aelodau fod yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies nad oedd y Cyngor yn gweithredu fel busnes pan gyrhaeddodd y Comisiynwyr yma fis Mawrth diwethaf, a bod y Cyngor yn delio gyda gwybodaeth mewn ffordd weddol wael. Roedd y Comisiynwyr wedi gweithio gyda swyddogion i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn fwy fel busnes ac yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd am ganlyniadau a bod hynny yn awr yn dechrau treiddio i lawr trwy ddiwylliant y trefniadau rheoli.

Roedd Cynllun Corfforaethol 3 blynedd hefyd yn cael ei ddrafftio ac roedd y Cyngor yn rhoi sylw i reoli risg.  Roedd cyflawni yn fater mawr i bob Awdurdod Lleol.  Roedd y gwaith a oedd wedi ei wneud yn awr yn sylfaenol ar gyfer mesur cyflawniad.  Roedd Comisiynwyr a swyddogion yn gweithio gydag Uned Ddata Cymru ac roeddent yn mynd i ddarparu trefniadau meincnodi sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi union sefyllfa'r Cyngor hwn, gan gynnwys ei fethiannau a'i lwyddiannau.

Byddai'r ethos cyfan, ar ôl cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2012-15 a'r gyllideb, yn troi o gwmpas mesur cyflawniad.  Ar ddiwedd y flwyddyn, byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth y gellid ei herio wedyn gan y Pwyllgor Gwaith.  Byddai person annibynnol a benodir gan y Cyngor yn gwneud unrhyw benderfyniad petai gwahaniaeth barn a byddai ganddo ganddi hawliau cyflafareddu rhwymedigol.

Roedd y Cynghorydd G. O. Parry yn ystyried ei bod yn bwysig rhoi gwybod i'r cyhoedd am y rhesymau pam y mae'n rhaid i'r Cyngor hwn wneud penderfyniadau anodd wrth benderfynu ar ei gyllideb ar gyfer 2012/13 ac ar ôl hynny.

Cytunodd y Cadeirydd bod angen i'r Cyngor gyfleu'r neges i'r cyhoedd mewn ffordd gyfrifol.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiad.*

## 5.  RHAGLEN AR GYFER GWELLA'R GWASANAETHAU PLANT

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) - Pan oedd Swyddogion yn paratoi eu cynlluniau gwreiddiol yn y cyswllt hwn, roeddent yn teimlo eu bod yn uchelgeisiol ac yn heriol.  Er bod un neu ddau o'r blaenoriaethau yn ymddangos mewn lliw oren ar hyn o bryd, materion bach oedd y rhain yr oedd angen i'r Rhaglen Wella roi sylw iddynt. Roedd y Gwasanaeth yn hyderus y byddai'n cwrdd â'i amcanion erbyn diwedd Mawrth.  Roedd newid unrhyw wasanaeth yn golygu newid y diwylliant yn y gwasanaeth hwnnw.  Wrth gwrs, roedd angen nodi targedau a dyheadau, ond roedd rhaid dod â'r staff gyda chi ar y daith honno er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn y ffordd broffesiynol a ddisgwylir ohonynt.  Roedd yn falch o ddweud fod staff wedi ymrwymo i'r Rhaglen Wella dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyflwyniad olaf i'r Cyngor gan y Cyfarwyddwr oherwydd y byddai'n ymddeol ddydd Gwener. Roedd y Comisiynwyr a'r Cyngor wedi gwerthfawrogi ei gyfraniad

gwerthfawr ac unigryw i drafodaethau'r Awdurdod hwn dros y blynyddoedd.  Dymunwyd yn dda iddo gan bawb am ymddeoliad hir ac iach.

Roedd y Comisiynydd Margaret Foster yn dymuno dweud ei bod hi a'r Cyfarwyddwr wedi gweithio'n eithriadol o dda dros y 10 mis diwethaf i roi sylw i amryfal heriau a thalodd deyrnged iddo am ei gyfraniad.  Roedd o wedi bod yn groesawgar eithriadol a chyda meddwl agored.  Roedd o wedi nodi a rhoi sylw i bopeth yr oedd wedi dod ar ei draws ac wedi delio gyda'r materion hynny mewn ffordd broffesiynol a galluog iawn.  Dymunodd yn dda iddo am ymddeoliad hir a hapus.

Ategodd y Cynghorydd K. P. Hughes y sylwadau a wnaed.  Yn yr amser byr yr oedd wedi gweithio gyda'r Cyfarwyddwr, roedd wedi gwerthfawrogi'r holl gymorth a chefnogaeth a gafodd ganddo a'r ffordd yr oedd wedi cyfleu gwybodaeth iddo am wahanol agweddau ar y gwaith.  Roedd wedi bod yn gyfnod anodd iawn iddo a dweud y gwir, ond roedd yn gwerthfawrogi ei gyfraniad a'i arweiniad yn ddiffuant iawn.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiad.*

## 6.  GWELLA CAPASITI, ANSAWDD A RHEOLAETH Y GWASANAETHAU CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

### (a) Cyllid

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) - Mai'r brif flaenoriaeth yn y gwasanaeth ar hyn o bryd oedd adeiladu capasiti.  Ryddhawyd rhywfaint o'r arian o'r gyllideb ar gyfer capasiti er mwyn penodi staff i swyddi ar sail barhaol yn y Gwasanaeth.

Wedi hynny, byddai ceisiadau am adnoddau yn cael eu paratoi i gryfhau'r tîm ariannol e.e. y tîm cau cyfrifon. Byddai mwy o waith yn cael ei wneud ar gymorth llywodraethu a rheoli risg ar gyfer y prosiect. Roedd angen cymorth systemau ar gyfer systemau ariannol newydd. Roedd angen trydydd Cyfrifydd Grŵp hefyd i roi cymorth pwrpasol i'r Cyfadrannau perthnasol.  Byddai cais hefyd yn cael ei wneud am hyfforddeion a byddai'r cynllun hyfforddi yn cael ei gryfhau.

Roedd achos busnes wedi ei baratoi ar gyfer y prif systemau ariannol newydd a fyddai'n costio o gwmpas £400k. Byddai'r gofrestr o asedau sefydlog a'r system gyfrifo yn dod yn weithredol ar 9 Chwefror ac yn cynorthwyo i gau'r cyfrifon ar gyfer 2011-12.  Roedd y Tîm Archwilio Mewnol ar fin cwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r systemau ariannol ym mis Chwefror.

Parheir i gyflwyno adroddiadau ariannol gyda'r nod o ddarparu adroddiadau chwarterol ar berfformiad ariannol y gallai'r cyhoedd eu harchwilio. Roedd gwaith hefyd yn cael ei gynllunio i asesu cywirdeb a phriodoldeb y wybodaeth ariannol a roddir i wasanaethau.  Roedd y Gwasanaeth hefyd yn trafod fformat a chynnwys yr adroddiadau ariannol i gefnogi perfformiad.

Y dasg fawr newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cyllid oedd cau'r cyfrifon. Cafwyd cymorth dros dro a pharatowyd amserlen ddrafft gyda Her Cymheiriaid yn cael ei chynnal gan Gyngor Torfaen ym mis Chwefror. Roedd trefniadau drafft newydd wedi cychwyn a gofynnwyd i archwilwyr allanol gyflwyno cynllun / materion y mae modd eu cyflawni yn gynt a chychwyn yr archwiliad yn gynt hefyd.  Yn ogystal, roedd angen edrych ar reolau gweithdrefn ariannol, cyfrifoldebau a disgwyliadau ariannol, y trefniadau gwneud penderfyniadau ac ymgynghori a gweithio corfforaethol.

Llongyfarchwyd y Swyddogion gan y Comisiynydd Byron Davies ac roedd yn croesawu'r diwylliant lle 'roedd yr Adran Gyllid yn symud yn ei flaen a'r ffaith eu bod yn blaenoriaethu ac yn rhoi sylw i faterion.

**(b) TGCh**

Cafwyd adroddiad ar y canlynol gan y Rheolydd Prosiect (TGCh) –

- Capasiti ac Adnoddau - Roedd y gwaith o symud staff TGCh adrannol eisoes wedi cychwyn. Yn y lle cyntaf, nodwyd 3 aelod o staff, roedd 2 wrthi'n cael eu trosglwyddo ac roedd y llall am gael ei drosglwyddo yr wythnos nesaf. Byddai'r swyddi hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill. Ynghylch trosglwyddo cyllidebau adrannol TGCh, dynodwyd cyfrifydd i nodi cyllidebau a byddai'r rheini wedi eu trosglwyddo erbyn 1 Ebrill. Gwnaed ceisiadau am gyllid ychwanegol a gofynnwyd am £50k i liniaru bylchau cyllidol tymor byr o fewn prosiectau mawr a £150k i sicrhau bod modd cyflwyno rhaglen adnewyddu cyfrifiaduron / gliniaduron bob 3 blynedd. (Gall y £150k hwn ostwng yn unol â throsglwyddiadau cyllidebol adrannol).

- Canolbwyntio ar y Cwsmer – Roedd capasiti ac adnoddau ychwanegol yn golygu y byddai modd ailstrwythuro TGCh i ddarparu swyddogaeth desg gwasanaeth a datblygu busnes, cryfhau rheolaeth prosiectau a rhaglen hyfforddiant gyda ffocws clir.

- Llywodraethu TGCh - Byddai'r Grŵp hwn yn ailgychwyn ym mis Chwefror ac yn cael ei gadeirio yn y tymor byr gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro. Byddai'r cyfarfod yn ystyried cylch gorchwyl y Grŵp, aelodaeth ac atebolrwydd.

Gofynnodd y Prif Weithredwr a oedd y Swyddogion wedi cymryd i ystyriaeth rai o'r ffactorau yr oedd eu hangen i gefnogi prosiectau o ran costau rheolaidd ac isadeiledd ac ati, yn arbennig mewn perthynas â rhai o'r prosiectau a gyllidir gyda grantiau allanol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn ei ymateb bod ganddynt waith datblygol i'w wneud ar drefniadau prosiect a sut yr oedd y rheini yn ffitio i mewn gyda'r cynllun corfforaethol a'r cynlluniau busnes. Yr hyn yr oeddent yn ceisio ei wneud oedd nodi'r prosiectau mawr a sicrhau bod unrhyw gais am grant yn cynnwys yr holl adnoddau ychwanegol yr oedd eu hangen fel nad oedd y mathau hynny o gostau yn disgyn yn ôl ar y gwasanaethau. Roedd prosesau a fframwaith wedi eu sefydlu bellach i sicrhau y gellid gwella hyn yn y dyfodol.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies fod cynnydd da yn cael ei wneud yn awr. Canoli oedd yr allwedd oherwydd bod pethau wedi bod yn dameidiog ar draws yr awdurdod o'r blaen. Roedd wrth ei fodd bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru. Roedd technoleg yn cael ei chyflwyno ym mis Medi o ran cyflymdra band llydan uwch ac roedd swyddogion wedi bod yn gweithio i roi Ynys Môn ar flaen y gad yn y cyswllt hwnnw.

**(c) Adnoddau Dynol**

Dygodd y Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol sylw at y ganmoliaeth a gafwyd gan PwC i'r Gwasanaeth – *"over the last year there had been a significant amount of activity within the HR function..... to this end, the operational actions undertaken have been appropriate and largely on track or completed".*

Roedd y rhain yn eiriau cadarnhaol ac yn gydnabyddiaeth deg o sefyllfa'r Gwasanaeth yn awr. Er eu bod yn dîm bychan, roeddent yn frwdfrydig, yn broffesiynol ac yn gydwybodol. Fodd bynnag, yn y pen draw nid oedd ond 6 aelod o staff. Os oeddent am fwrw ymlaen ar sail strategol, roedd angen cynyddu'r niferoedd staff. Dangosodd ffigyrau a oedd yn dangos y gymhareb rhwng y nifer delfrydol o staff AD a nifer y staff yn y Cyngor. Roedd 45 o brosiectau ar y cynllun prosiectau ar gyfer yr Adain Adnoddau Dynol ac erbyn hyn, nid oedd yr un ohonynt yn goch.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies mai Adnoddau Dynol oedd un o'r meysydd allweddol yn y Cyngor hwn ac mai'r adnodd mwyaf oedd ei staff. Roedd y Gwasanaeth wedi gwneud yn dda ar yr ochr weithredol ond yn awr roedd angen symud i ddatblygu staff yn strategol. Roedd y gyllideb yn mynd i fod yn anodd ac, yn anffodus, ni fyddai modd penodi 22 aelod ychwanegol o staff a dylid cydbwyso galw am adnoddau trwy wneud defnydd o adnoddau allanol am y tro.

Roedd y Comisiynydd Davies yn ystyried bod y Cyngor yn dechrau troi'r gongl erbyn hyn. Yn amodol ar gytundeb heddiw, roedd y Comisiynwyr yn teimlo y dylid newid enw'r Bwrdd Gwella i Bwrdd Cynaliadwyedd Ynys Môn. Roedd hwn wedi bod yn gyfarfod ardderchog ac adeiladol heddiw. Roedd y Comisiynwyr yn cyfarfod gyda'r Gweinidog ddydd Mercher nesaf ac roeddent yn gobeithio y gallai'r Gweinidog wneud datganiad cyhoeddus i'r perwyl hwn yn fuan.

Roedd y Cynghorydd W. J. Chorlton yn croesawu'r awgrym a wnaed gan y Comisiynwyr.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiadau gan y Swyddogion perthnasol.*

**7. Y WELEDIGAETH ECONOMAIDD I'R DYFODOL**

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Economaidd Dros Dro - Ei fod yn bwysig cydnabod fod Ynys Môn mewn cyfnod o drawsnewid o bersbectif yr economi, safonau byw ar yr Ynys a chyflogaeth. Ynys Ynni oedd y canolbwynt ar gyfer dod â llawer o raglenni gwaith ynghyd. Roedd yn bwysig hefyd cyfeirio at y Rhaglen ar gyfer Llywodraethu yn Llywodraeth Cymru a hefyd at y cydweithio a oedd yn digwydd rhwng y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn y maes datblygu economaidd. Roedd strategaeth ddrafft o'r enw *'Uchelgeisiau Economaidd - Strategaeth ar gyfer Newid'* yn cael ei datblygu gan yr awdurdodau hynny ac roedd hi'n amlinellu cyd-raglen, cyd-ganlyniadau a'r gwaith cydweithio ychwanegol yr oedd angen ei wneud.

Roedd yr Awdurdod hwn angen ymateb i hynny ar lefel leol ac roedd y strwythur drafft a oedd gerbron y cyfarfod heddiw yn cynnig strwythur sefydliadol ar gyfer Ynys Môn. Prif sylfeini'r strategaeth fyddai materion ynni a fyddai'n cael eu gyrru trwy'r Rhaglen Ynys Ynni; materion twristiaeth a fyddai'n cael eu gyrru trwy'r rhaglen cynllunio rheoli cyrchfan; a rhaglen adfywio a buddsoddi mewn isadeiledd a phobl a sgiliau.

Roedd y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn hanfodol i wella'r modd o gynllunio, cyflawni a safoni'r holl brosesau a'r dulliau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau Ynys Fenter. Dan hynny, 'roedd y ffrydiau gwaith lle 'roedd y gwaith yn digwydd, lle 'roedd arian yn cael ei wario a lle 'roedd Swyddogion yn cyflawni prosiectau i gefnogi'r economi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Soniodd y Comisiynydd Byron Davies ei fod ef a'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol wedi bod mewn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ddydd Gwener ddiwethaf a bod y ddau swyddog wedi cyflwyno sefyllfa Ynys Môn yn effeithiol iawn. Roedd y gweision sifil uchaf yng Nghymru yn falch o glywed am ba mor agored oedd pethau a'r ffordd yr oedd materion yn cael eu trafod. Yr hyn a oedd yn amlwg oedd y materion a oedd yn mynd i gael effaith ar yr Ynys hon dros y 10 mlynedd nesaf o ran Wylfa a phethau eraill. Roedd maint y prosiectau a ragwelwyd yn fwy na darparu'r Gemau Olympaidd yn Llundain. Roedd hynny'n anferth ac roedd yn rhaid i Ynys Môn sicrhau na fyddai'n boddi mewn datblygiad o'r fath.

Oherwydd bod y prosiect Gemau Olympaidd yn cyflawni ar sail y Deyrnas Gyfunol gyfan, roedd Ynys Môn yn dymuno'r un ystyriaeth a gafodd Bwrdeistrefi Llundain. Roedd cyfle yma i Lywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i Horizon symud ymlaen yn y Gwanwyn, sut oedd y Llywodraeth honno am sicrhau'r capasiti, y gallu a'r cyllid fel ei fod yn brofiad sydd nid yn unig yn dda ar gyfer Ynys Môn ond y Deyrnas Gyfunol, gan sicrhau hefyd ei fod yn brosiect y byddai modd ei ddarparu o ran datblygiad cynaliadwy ar gyfer yr Ynys.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod maint yr hyn sy'n dechrau digwydd yn Ynys Môn yn dechrau gwawrio ar Swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y Cyngor yn gofyn iddynt strwythuro eu hunain fel y gellid cael y gefnogaeth broffesiynol angenrheidiol i wneud i bethau weithio. Roedd hwn yn gyfle unwaith ac am byth ac, yn y pen draw, hwn fyddai'r datblygiad mwyaf sylweddol a phellgyrhaeddol ar gyfer Gogledd Cymru. Byddai'r prosiect yn cynorthwyo Ynys Môn i roi sylw i faterion cyflogaeth, sicrhau ffyniant economaidd, cynhyrchu cyfoeth, creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc a rhwystro llif teuluoedd ifanc o'r Ynys i chwilio am waith.

Dywedodd y Comisiynydd Alex Aldridge bod angen i'r Cyngor hwn gymryd rheolaeth o'i dynged ei hun a, thrwy wneud hynny, greu rhywbeth gwahanol. Roedd yn croesawu'r cydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint oherwydd ei fod eisoes wedi cael statws menter ac roedd yn dymuno awdurdodau cyfagos i fod yn rhan o hynny. Yn bwysicach na hynny, roedd yn dymuno i'r Aelodau a'r Swyddogion arwain ar y prosiect newydd anferth hwn a rhoi Ynys Môn yn ôl ar y map. Roedd yn ymwybodol o gronfa newydd o'r enw *"Connect Ewrope"* a fyddai gyda chyllideb o leiaf €50b erbyn 2013/14 ac yn codi i €170b. Roedd potensial i'r Awdurdod fanteisio ar y gronfa hon. Arian strwythurol oedd hwn a oedd yn ymwneud ag ysgolion, ffyrdd a'r amgylchedd.

Roedd yn bwysig creu cysylltiadau gyda Llywodraeth Cymru a fyddai'n gallu manteisio ar y cyllid hwn. Roedd yn credu bod gohirio'r etholiad am 12 mis wedi rhoi cyfle delfrydol i'r aelodau etholedig siapio dyfodol yr Ynys yr oeddynt yn ei chynrychioli mor angerddol.

Diolchodd y Cynghorydd Bryan Owen i'r Swyddog am ei adroddiad ac i'r Comisiynwyr am eu gweledigaeth. O hunllef yr ymyrraeth 2 flynedd yn ôl, roedd y Cyngor hwn wedi symud ymlaen ac roedd bellach mewn sefyllfa i greu Cyngor mwy sefydlog a allai adfywio'r Ynys.

Roedd y Cynghorydd Bob Parry yn ystyried ei bod hi'n hollbwysig parhau i roi gwybod i'r cyhoedd am y datblygiadau a gynigir ar gyfer Ynys Môn.

Roedd y Cadeirydd yn ystyried ei bod yn bwysig datblygu'r Parth Menter o fewn ysgolion, gan wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod beth oedd hynny'n ei olygu a pha gyfleoedd a fyddai ar gael iddynt. Rhaid gwreiddio'r cysyniad hwn a'i ddatblygu o'r gwaelod i fyny o fewn ein sefydliadau addysgiadol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:55am**

**Y COMISIYNYDD GARETH JONES**
**CADEIRYDD**